Yno gofynai'r Cadpen iddo,
O ba *gost* yr y'ch yn hwylio?
O Newfoundland, dri mis i heddy':—
Claf yw fy nghalon bach ar dorri.

Am Newfoundland yr wyf yn cwyno,
Er pan ddaethym oddiyno;
Am ferch Lord Lovet claf yw fy nghalon,
Hi yw fy anwyl briod ffyddlon.

Fy nghwnsel mwy ni fedraf gadw,
Y fi ydyw'r ferch sy'n adde'r enw,
Dyma *chain* a naw clo arno,
'Does ond y chwi a eill eu dadglo.

Syrthio wnaent yn mreichiau 'u gilydd,
Gan wylo'n brudd ar draeth llawenydd;
I Newfoundland troi'n ol yn sydyn,
I settlo ei dengmil yn y flwyddyn.

Trefnu wnaethant bob matterion,
Trwy ddoethineb cywir galon,
Gan dreulio'r oes mewn llawn foddlonrwydd
Dyma'r peth yw gwir hapusrwydd.

DIWEDD.

BRITISH 20 AU 80 MUSEUM

*Caernarfon: argraffedig gan P. Evans.*